



Her Matrix 2020 – Canllaw Cryno

Beth yw hyn?

Mae Her Matrix yn her seiberddiogelwch AM DDIM a gaiff ei threfnu gan Uned Seiberdroseddu Ranbarthol Swydd Efrog a Humber (yr Uned), ac mae'n agored i bobl ifanc rhwng 11 a 17 mlwydd oed sy'n byw yn y Deyrnas Unedig. Mae'r gystadleuaeth wedi'i rhannu'n ddau grŵp oedran – 11-14 oed a 15-17 oed a gall gael ei chwarae yn yr ystafell ddosbarth fel rhan o wers neu fel gweithgaredd allgyrsiol. Neu, gall fod yn waith cartref neu'n her bersonol i'w chwblhau gartref.

Hanes

Sefydlwyd yr her i ddechrau yn 2018, gan ddefnyddio cyllideb o'r Ddeddf Elw Troseddau, gan ddod yn agored i bobl ifanc rhanbarth Gorllewin Swydd Efrog gyda'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cystadlu i ennill gwobrau technolegol megis gliniaduron, dronau a llechi.

Yn 2019, ehangwyd Her Matrix i gyrraedd rhanbarth Swydd Efrog a Humber – gyda chymorth Heddluoedd Gorllewin Swydd Efrog, Gogledd Swydd Efrog, De Swydd Efrog a Humberside. Cynhaliwyd y rownd derfynol ar gae rasio Caerefrog gyda nifer o fusnesau a gydnabyddir yn genedlaethol yn cefnogi'r digwyddiad.

Yn 2020, mae'r Uned yn falch o gyhoeddi y bydd Her Matrix yn cael ei chynnig i holl breswylwyr y DU gyda'r 10 uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol yn helpu i gynnal y digwyddiad.

Ffurff

- Cynhelir yr her gychwynnol ar blatfform ar-lein. Bydd y cyfranogwyr yn gallu cystadlu yn yr her o ddydd Llun 20 Ionawr hyd at ddydd Iau 14 Chwefror 2020. Dylai'r gêm gymryd tua 30 munud i'w chwblhau. Bydd 5 elfen yn cael eu profi: Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, cadw'n ddiogel ar-lein, steganograffeg, codio python a seiffro. Mae'r her wedi'i chynllunio i brofi sgiliau digidol ac annog datblygu galluoedd ymysg pobl ifanc a fydd yn eu galluogi i gael gyrfa ym maes seiberddiogelwch.
- Bydd y cystadleuwyr llwyddiannus yn y gystadleuaeth ar-lein yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad cynderfynol rhanbarthol a fydd yn digwydd ar 30 Mawrth 2020. Gall rhai o'r digwyddiadau cynderfynol roi cyfleoedd i brofi sgiliau ymarferol ymhellach - sy'n debygol o gynnwys cystadlaethau ar ffurf ymarfer adeiladu tîm a sgiliau datrys posau.
- Caiff y cystadleuwyr sy'n llwyddiannus yn y rowndiau cynderfynol rhanbarthol eu gwahodd i gystadlu mewn rownd derfynol genedlaethol lle caiff amryw o sgiliau eu profi - nid yw'r lleoliad a'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto (yn debygol o fod yn ystod mis Gorffennaf 2020). Roedd yr ystod o weithgareddau a gynhaliwyd yn y rowndiau terfynol blaenorol yn cynnwys cystadlaethau ar ffurf ymarfer adeiladu tîm a sgiliau datrys posau, cyfryngau cymdeithasol ffynhonnell agored, dal drôn, pigo cloeon a digwyddiadau tîm.

